

Cynllun Ardystio a Safonau'r Cynllun Ardystio

Rhan 2: Safonau Technegol Tystysgrif Perfformiad Ynni

Mae hon yn rhan o gyfres o ddogfennau ac ni ddylai gael ei darllen ar ei phen ei hun. I gael rhagymadrodd ac awgrymiadau ym mha drefn y dylech chi ddarllen hon a'r dogfennau eraill yn y gyfres, gweler Tudalen Hafan [Cynllun Ardystio a Chynllun Achredu y Pecyn Gwybodaeth Cartref](#).

Cynllun Ardystio a Safonau'r Cynllun Ardystio

Rhan 2: Safonau Technegol Tystysgrif Perfformiad Ynni

Mae hon yn rhan o gyfres o ddogfennau ac ni ddylai gael ei darllen ar ei phen ei hun. I gael rhagymadrodd ac awgrymiadau ym mha drefn y dylech chi ddarllen hon a'r dogfennau eraill yn y gyfres, gweler Tudalen Hafan [Cynllun Ardystio a Chynllun Achredu y Pecyn Gwybodaeth Cartref](#).

Department for Communities and Local Government
Eland House
Bressenden Place
Llundain SW1E 5DU
Teleffon 020 7944 4400
gwefan www.communities.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2007.

Mae logo'r Adroddiad Cyflwr Cartref a'r geiriad sy'n gysylltiedig ag ef yn nod masnach cofrestredig – ni chaniateir eu defnyddio heb drwydded.

Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol yn perthyn i'r Goron.

Caniateir i'r cyhoeddiad hwn, heb gynnwys y logos, gael ei atgynhyrchu'n ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng at ddibenion ymchwil, astudio preifat neu i'w gylchredeg yn fewnol mewn sefydliad, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n fanwl-gywir a heb ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunyddiau o dan hawlfraint y Goron a rhaid pennu teitl y cyhoeddiad.

I ddefnyddio cynnwys y cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffordd arall byddai angen trwydded hawlfraint. Gwnewch gais am Drwydded Click-Use ar gyfer deunyddiau craidd yn www.opsi.gov.uk/click-use/system/online/pLogin.asp, neu drwy ysgrifennu at Office of Public Sector Information, Information Policy Team, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ.
Ffacs: 01603 723000 neu e-bost: HMSOlicensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, e-bostiwch alternativeformats@communities.gsi.gov.uk

Communities and Local Government Publications
PO Box 236
Wetherby
West Yorkshire
LS23 7NB
Ffôn: 08701 226 236
Ffacs: 08701 226 237
Ffôn testun: 08701 207 405
E-bost: communities@twoten.com
neu ar-lein drwy wefan Cymunedau a Llywodraeth Leol: www.communities.gov.uk

Gorffennaf 2007

Cod y Cynnyrch: 07 HIPI 04548 (Wd)

Tystysgrif Perfformiad Ynni

[HO1]

Math o annedd:

[HO2]

Dyddiad yr asesiad:

[HO4]

Dyddiad y dystysgrif:

[HO5]


Cyfeirnod:

[HO6]

Cyfanswm yr arwynebedd llawr: [HO7]


Mae perfformiad y cartref hwn wedi'i raddio yn nhermau'r defnydd o ynni fesul metr sgwâr o'r arwynebedd llawr, effeithlonrwydd ynni yn seiliedig ar gostau tanwydd ac effaith amgylcheddol yn seiliedig ar allyriadau carbon deuocsid (CO₂).

Cyfraddiad Effeithlonrwydd Ynni

	Cyfredol	Potensial
<i>Effeithlon iawn o ran ynni – costau rhedeg is</i>		
(92-100) A		
(81-91) B		
(69-80) C		[H11]
(55-68) D	[H10]	
(39-54) E		
(21-38) F		
(1-20) G		
<i>Ddim yn effeithlon o ran ynni – costau rhedeg uwch</i>		
Cymru a Lloegr	Cyfarwyddeb 2002/91/EC yr Undeb Ewropeaidd	

Mae'r cyfraddiad effeithlonrwydd ynni yn fesur o effeithlonrwydd cyffredinol y cartref. Po uchaf yw'r cyfraddiad, y mwyaf effeithlon yw'r cartref o ran ynni, a bydd y biliau tanwydd felly yn is.

Cyfraddiad Effaith Amgylcheddol (CO₂)

	Cyfredol	Potensial
<i>Amgylcheddol gyfeillgar iawn – allyriadau CO₂ is</i>		
(92-100) A		
(81-91) B		
(69-80) C		
(55-68) D		[H13]
(39-54) E	[H12]	
(21-38) F		
(1-20) G		
<i>Ddim yn amgylcheddol gyfeillgar - allyriadau CO₂ uwch</i>		
Cymru a Lloegr	Cyfarwyddeb 2002/91/EC yr Undeb Ewropeaidd	

Mae'r cyfraddiad effaith amgylcheddol yn fesur o effaith y cartref yn nhermau allyriadau carbon deuocsid (CO₂). Po uchaf yw'r cyfraddiad, y lleiaf o effaith y mae'n ei gael ar yr amgylchedd.

Amcangyfrif o ddefnydd ynni, allyriadau carbon deuocsid (CO₂) a chostau tanwydd y cartref hwn.

	Cyfredol	Potensial
Defnydd o ynni	[H20] kWh/m ² y flwyddyn	[H21] kWh/m ² y flwyddyn
Allyriadau carbon deuocsid	[H22] tonnell y flwyddyn	[H23] tonnell y flwyddyn
Golau	[H24] y flwyddyn	[H25] y flwyddyn
Gwres	[H26] y flwyddyn	[H27] y flwyddyn
Dŵr poeth	[H28] y flwyddyn	[H29] y flwyddyn

Mae'r tabl uchod, sy'n seiliedig ar dybiaethau safonol ynghylch meddiannaeth, patrymau gwresogi a lleoliad daearyddol, yn dangos faint fydd hi'n ei gostio i ddarparu golau, gwres a dŵr poeth i'r cartref hwn. Mae'r costau tanwydd yn golygu cost tanwydd yn unig, heb unrhyw wasanaeth, cynnal a chadw nac archwiliad diogelwch cysylltiedig. Cafodd y dystysgrif hon ei darparu at ddibenion cymharu yn unig ac mae'n galluogi cymharu un cartref ag un arall. Dylech bob amser wirio'r dyddiad y cyhoeddwyd y dystysgrif oherwydd gall prisiau tanwydd gynyddu dros amser a bydd argymhellion ar gyfer arbed ynni yn datblygu.

I weld sut all y cartref hwn gyflawni ei gyfraddiad potensial, gweler y mesurau a argymhellir.



Cofiwch edrych am y logo argymhell arbed ynni wrth brynu cynhyrchion effeithlon o ran ynni. Mae'n ffordd gyflym a hawdd o adnabod y cynhyrchion mwyaf effeithlon sydd ar y farchnad.

Am gyngor ar sut i weithredu a dod i wybod am gynigion sydd ar gael i helpu gwneud eich cartref yn fwy effeithlon o ran ynni, ffoniwch **0800 12 012** neu ewch i'r wefan **www.energysavingtrust.org.uk/myhome**

Ynghylch y ddogfen hon

Cynhyrchwyd y Dystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer yr annedd hon yn dilyn asesiad ynni gan asesydd cymwys, sydd wedi'i achredu gan [H111], yn ôl cynllun a awdurdodwyd gan y Llywodraeth. Cynhyrchwyd y dystysgrif hon gan ddefnyddio methodoleg asesu RdSAP 2005 a chynhyrchwyd hi o dan y Energy Performance of Buildings (Certificates and Inspections)(England and Wales) Regulations 2007. Mae copi o'r dystysgrif wedi'i leoli ar gofrestr genedlaethol.

Rhif Achrediad yr Asesydd:	[H101]
Enw'r Asesydd:	[H102]
Enw'r cwmni/enw masnachu:	[H104]
Cyfeiriad:	[H105]
Rhif ffôn:	[H106]
Rhif ffacs:	[H107]
Cyfeiriad e-bost:	[H108]
Dadleniad partiön perthnasol:	[H110]

Os oes cwyn gennych neu os ydych yn dymuno cadarnhau bod y dystysgrif yn ddilys

Mae manylion yr asesydd a'r cynllun achredu perthnasol ar y dystysgrif. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y cynllun achredu ar ein gwefan ar [cyfeiriad y wefan] ynghyd â manylion am eu gweithdrefnau ar gyfer cadarnhau dilysrwydd y dystysgrif ac ar gyfer cwyno.

Ynghylch cyfraddiadau perfformiad yr adeilad

Mae'r cyfraddiadau ar y dystysgrif yn darparu mesur o effeithlonrwydd ynni cyffredinol yr adeilad a'i effaith amgylcheddol, wedi eu cyfrif yn unol â methodoleg genedlaethol sy'n cymryd i ystyriaeth ffactorau megis inswleiddio, systemau gwres a dŵr poeth, awyru a'r defnydd o danwydd. Ar gyfartaledd band E (cyfraddiad 46) yw'r cyfraddiad effeithlonrwydd ynni ar gyfer annedd yng Nghymru a Lloegr.

Ni chaiff pob adeilad ei ddefnyddio yn yr un ffordd, felly bydd cyfraddiadau ynni'n defnyddio tybiaethau 'meddiannaeth safonol, a fydd o bosib yn wahanol i'r ffordd benodol y byddwch chi'n defnyddio'ch adeilad. Mae dulliau cyfrifo gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer cartrefi ac ar gyfer adeiladau eraill. Gellir dod o hyd i'r manylion ar www.communities.gov.uk/epbd

Mae adeiladau sy'n fwy effeithlon o ran ynni yn defnyddio llai o ynni, yn costio llai i'w rhedeg, ac yn helpu i warchod yr amgylchedd. Byddai adeilad gyda graddfa o 100 yn costio fawr ddim i'w wresogi a'i oleuo ac felly'n achosi fawr ddim o allyriadau carbon. Mae'r cyfraddiadau potensial yn y dystysgrif yn disgrifio pa mor agos y gallai'r adeilad hwn ddod at 100 pe rhoddid y gwelliannau cost effeithiol a argymhellwyd ar waith.

Ynghylch effaith adeiladau ar yr amgylchedd

Un o'r cyfranwyr mwyaf at gynhesu byd eang yw carbon deuocsid. Mae'r ffordd y defnyddiwn ynni mewn adeiladau yn cynhyrchu allyriadau carbon. Mae'r ynni a ddefnyddiwn ar gyfer gwresogi, goleuo a thrydan mewn cartrefi yn cynhyrchu dros chwarter o allyriadau carbon deuocsid y DU ac mae adeiladau eraill yn cynhyrchu chweched ran arall.

Mae'r cartref cyffredin yn cynhyrchu tua 6 thunnell o carbon deuocsid bob blwyddyn. Drwy fabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn gellir lleihau'r allyriadau a gwarchod yr amgylchedd. Gallech leihau allyriadau hyd yn oed yn fwy drwy newid i ffynonellau ynni adnewyddadwy. Yn ogystal mae llawer o fesurau syml bob dydd a fydd yn arbed arian, yn gwella esmwythdra a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd megis:

- Gwirio nad yw thermostat eich system gwresogi wedi'i osod yn rhy uchel (mewn cartref, awgrymir 21°C yn yr ystafell fyw) a defnyddio'r amserwr er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd angen y byddwch yn gwresogi'r adeilad.
- Gwneud yn siŵr nad yw eich dŵr poeth wedi'i orboethi – fel arfer nid oes angen i thermostat silindr fod yn uwch na 60°C
- Troi goleuadau i ffwrdd pan nad oes eu hangen, a pheidio gadael peiriannau/offer ar 'standby'. Cofiwch beidio â gadael gwefrydd (ee ar gyfer ffôn symudol) ymlaen pan nad ydych yn ei ddefnyddio.

Ewch i wefan y Llywodraeth ar www.communities.gov.uk/epbd er mwyn:

- Darganfod sut i gadarnhau dilysrwydd tystysgrif perfformiad ynni
- Darganfod sut i wneud cwyn am dystysgrif neu'r asesydd a'i cynhyrchodd
- Dysgu mwy am y gofrestr genedlaethol sy'n cynnwys y dystysgrif hon
- Dysgu mwy am effeithlonrwydd ynni a lleihau'r defnydd o ynni.

Y mesurau a argymhellir i wella perfformiad ynni'r cartref hwn

[H01]

Dyddiad y dystysgrif: [H05]

Cyfeirnod: [H06]

Crynodeb o nodweddion y cartref hwn sy'n gysylltiedig a'i berfformiad ynni

Asesiad yw'r canlynol o'r elfennau unigol allweddol sydd wedi cael effaith ar raddfa perfformiad y cartref hwn. Asesir pob elfen yn erbyn y raddfa a ganlyn:
Gwael iawn/Gwael/Cymedrol/Da/Da iawn.

Elfennau	Disgrifiad	Perfformiad cyfredol	
		Effeithlonrwydd ynni	Amgylcheddol
Waliau	[H30a]	[H30b]	[H30c]
To	[H31a]	[H31b]	[H31c]
Llawr	[H32a]	[H32b]	[H32c]
Ffenestri	[H33a]	[H33b]	[H33c]
Prif ddull o wresogi	[H34a]	[H34b]	[H34c]
Prif offer rheoli gwres	[H35a]	[H35b]	[H35c]
Gwres eilaidd	[H36a]	[H36b]	[H36c]
Dŵr poeth	[H37a]	[H37b]	[H37c]
Goleuo	[H38a]	[H38b]	[H38c]
Cyfraddiad effeithlonrwydd ynni cyfredol		[H39]	
Cyfraddiad effaith amgylcheddol (CO ₂) cyfredol		[H40]	

Argymhellion

Mae'r mesurau isod yn gost effeithiol. Mae'r cyfraddiadau perfformiad yn dilyn y gwelliannau sy'n cael eu rhestru isod yn gronnol, hynny yw, maent yn rhagdybio bod y gwelliannau wedi digwydd yn y drefn yr ymddangosant yn y tabl.

Mesurau costau is (hyd at £500)	Arbedion arferol y flwyddyn	Cyfraddiadau perfformiad yn dilyn y gwelliannau Effeithlonrwydd ynni	Effaith amgylcheddol
1 [H50]	[H51]	[H52]	[H53]
2 [H50]	[H51]	[H52]	[H53]
3 [H50]	[H51]	[H52]	[H53]
4 [H50]	[H51]	[H52]	[H53]
Is-gyfanswm	[H54]		
Mesurau cost uwch			
5 [H57]	[H58]	[H59]	[H60]
6 [H57]	[H58]	[H59]	[H60]
Cyfanswm	[H61]		
Cyfraddiad effeithlonrwydd ynni potensial		[H62]	
Cyfraddiad effaith amgylcheddol (CO ₂) potensial			[H63]

Mesurau pellach er mwyn cyrraedd safonau hyd yn oed yn uwch

Dylid ystyried y mesurau pellach a restrir isod yn ogystal â'r rheini a nodwyd eisoes os ydych yn anelu am y safonau uchaf posibl ar gyfer y cartref hwn.

7 [H64]	[H65]	[H66]	[H67]
8 [H64]	[H65]	[H66]	[H67]
Cyfraddiad effeithlonrwydd ynni uwch		[H68]	
Cyfraddiad effaith amgylcheddol (CO ₂) uwch			[H69]

Bydd gwelliannau i'r cyfraddiadau effeithlonrwydd ynni ac effaith amgylcheddol fel arfer yn dod yn sgil ei gilydd. Serch hynny, gallant weithiau ddargyfeirio gan nad yw costau ynni is bob amser yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon deuocsid (CO₂).

Ynghylch y mesurau cost effeithiol i wella ar gyfraddiadau perfformiad y cartref hwn

Mesurau costau is (fel arfer hyd at £500 yr un)

Mae'r mesurau hyn yn gymharol rad i'w gosod ac mae'n werth mynd i'r afael â hwy yn gyntaf. Mae'n bosib y bydd rhai ohonynt yn cael eu gosod fel prosiectau DIY. Nid yw hynny bob amser yn syml ac weithiau mae peryglon iechyd a diogelwch, felly cymerwch gyngor cyn mynd ati i wneud y gwelliannau hyn eich hun.

[\[H70\]](#)

Mesurau cost uwch (fel arfer dros £500 yr un)

[\[H71\]](#)

Ynghylch y mesurau pellach i gyrraedd safonau hyd yn oed yn uwch

Mesurau pellach a allai olygu safonau hyd yn oed yn uwch ar gyfer y cartref hwn

[\[H72\]](#)